CYLCHLYTHYR ARCHIFAU CEREDIGION GAEAF 2000

Croeso i gylchlythyr y Gaeaf. Dylai fod yn gylchlythyr ar gyfer Gŵyl Fihangel ond gan fod deufis wedi mynd heibio ers y dyddiad hwnnw, bu'n rhaid i ni newid yr enw. Dechreuwn felly drwy ymddiheuro, fel y tro o'r blaen, am fod cyhyd yn cyhoeddi'r cylchlythyr hwn.

Er y byddem wrth ein bod yn gweld mwy o bobl yn defnyddio'r swyddfa, mae gennym ddigon i'w wneud bob amser yn adran Archifau Ceredigion. Mae'r staff yn brysur bob amser gyda'r amryw weithgareddau sydd ynghlwm wrth gynnal a chadw archifau - didoli dogfennau, eu rhestru, eu glanhau a'u storio mewn bocsys (a thrio dod o hyd i le iddyn nhw yn yr ystafelloedd storio!), ateb ymholiadau, paratoi adroddiadau ac erthyglau, rhoi sgyrsiau a delio ag adran " cofnodion modern" enfawr yr adran nad yw ar gael i aelodau'r cyhoedd ond sy'n cael ei chadw at ddefnydd adrannau eraill y cyngor sir.

Tra derbyniwn nifer o lythyron a galwadau ffôn yn gofyn am help â'u gwaith ymchwil, cawn hefyd mwy a mwy o e-bost. Ein cyfeiriad electronig yw **archives@ceredigion .gov.uk**

Cawsom hefyd nifer o ddogfennau eraill gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'n bosib y gŵyr rhai ohonoch am bolisi casgliadau newydd y Llyfrgell sy'n rhoi pwyslais ar gadw deunydd o bwys cenedlaethol yn unig yno ac annog cadw deunydd lleol ei natur yn y swyddfeydd archifau lleol. Daeth nifer o eitemau diddorol atom o ganlyniad i hynny a gobeithiwn gael mwy yn y dyfodol (gweler y rhestr "deunydd diweddar"). Gobeithiwn gael archifau'r Llys Chwarter ar gyfer y sir cyn hir a bydd hyn yn ychwanegiad da i'n casgliadau.

Cafodd Helen gyfle i fynd i nifer o gyrsiau a seminarau yn ddiweddar. Mae'r hyn sydd i'w ddysgu yn ddi-ben-draw! Yn ddiweddar, cynhaliwyd seminar ynglŷn â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a ddaw i rym cyn hir (ac a all fod yn dipyn o her i gyrff cyhoeddus a'u systemau cadw archifau!), sesiwn ar ddefnyddio cyfrifiaduron i'w gwneud hi'n haws i fynd at yr archifau, seminar ar "ddadasideiddio" (mae gan ddogfennau a gynhyrchwyd wedi 1850 lefel uchel o asid yn y papur sy'n achosi i'r ddogfen droi'n frown ac yn fregus - un o'r agweddau â'r her fwyaf o safbwynt cadw dogfennau modern), ac Ysgol Undydd Cymdeithas Archifwyr Cymru ar gyfer pobl sydd ynghlwm wrth y gwaith o gadw

dogfennau. Aeth Helen hefyd i seminarau ar y problemau a allai godi wrth symud storfa (os gwelwch yn dda!), arolwg ar anghenion cadwraethol mewn swyddfeydd archifau a llyfrgelloedd a disgrifiad ingol o weithio gydag archifau ac amgueddfeydd Sarajevo yn y 1990au yn ceisio diogelu treftadaeth ddiwylliannol y wlad ar adeg o ryfel.

Mae "Gwerth Gorau" - fel y soniwyd yn y cylchlythyr diwethaf - gyda ni o hyd ac, yn ogystal â hynny, mae wedi'i gysylltu â "Chynlluniau Busnes" lle bo'r cyngor wedi'i rannu'n "unedau" busnes er mwyn gwella gweinyddiaeth. Gall gweld cynlluniau newydd yn mynd a dod mewn llywodraeth leol fod yn hobi eitha diddorol ...

Gobeithiwn dderbyn depo storio newydd ar gyfer ein harchifau modern cyn hir. Dyma archifau lled-fodern y cyngor sir y mae'n rhaid eu cadw am resymau cyfreithiol a byddwn yn eu storio ar gyfer adrannau'r cyngor. Mae hyn yn gyffrous iawn ac ychydig iawn o le storio sydd ar ôl yn yr ystafelloedd diogel ac mae angen mwy o archifau arnom!

Cofiwch ein bod bob amser wrth ein bodd pan anfonwch air atom - yn newyddion, yn sylwadau, yn hanes diddorol am y sir - fel y gallwn gynnwys yr eitemau yn y cylchlythyr.

Gan fod y cylchlythyr yma yn hwyr yn eich cyrraedd, mae'n bosib y daw cylchlythyr y Nadolig yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Ga i achub ar y cyfle felly i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd!

<u>Rhai Deunydd a Gafwyd yn Ddiweddar</u>

1195	Llyfr Cofnodion a Gohebiaeth Cymdeithas Eingl-Gymreig Llanon 1969 –1992
1196	Cofrestr Etholiadol Bwrdeistref Aberystwyth 1865-1866
1199	Tryloywluniau Rheilffordd y Rheidol 1970au-1980au
1200 1203 1225	Eitemau pellach o'r "Casgliad Passmore" sy'n ymwneud yn bennaf â hanes ardal Ceinewydd.
1206	Cofnodion Cyngor Plwyf a Chymuned Llangwyryfon

1895 – 1940

1223 Trawsgrifiadau wedi'u golygu o ddyddiaduron Dug Newcastle yn deillio o'r adeg y bu'n byw yn yr Hafod, ger Cwmystwyth.

AD x/75

CYMRU'R PLANT

YR YMGORFFORWYD Y "CAPTEN" YNDDO

CYFROL XLII
RHIF 504

NADOLIG, 1933

PRIS 3c.

NADOLIG LLAWEN ICHWI OLL

Y mae UN OXO yn y Tŷ yn well na Dau ar silff y Groser

Clerigwr cydwybodol :
Cofnodion plwyf eglwys Llanbadarn Trefeglwys yn y ddeunawfed ganrif

Mewn oes lle mae profion genetig yn gyffredin bellach mae'n dod yn fwyfwy amlwg i ni etifeddu mwy gan ein cyndadau na siâp a maint ein trwyn. Os byddwn am wybod a ydym ni wedi etifeddu rhyw gyflwr arbennig gall dod o hyd i'r atebion iawn fod yn broses ddigon anodd. Yn absenoldeb nodiadau meddygol ar gyfer pob unigolyn, y cyfan fydd ar gael fel arfer (ers 1837) fydd yr adran "achos" ar dystysgrif geni. Gall darganfod achosion marwolaeth drwy brynu tystysgrifau fod yn fusnes drud fydd y tu hwnt i lawer ohonom ni. Gall cofrestri plwyfi roi ychydig o gliwiau i ni: gall nifer fawr o blant yn marw tua'r un adeg er enghraifft fod yn arwydd o epidemig ond annigonol ar y cyfan yw'r dystiolaeth.

Mae pobl sy'n ymddiddori mewn hanes teuluoedd ac sydd â pherthnasau a fu farw yn Llanbadarn Trefeglwys yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth 1846 a mis Ebrill 1870 mewn sefyllfa ffodus oherwydd, yn ystod y blynyddoedd hynny, aeth y Parchedig James, a ddaeth yn ficer yno ym 1837, ati i gofnodi achos marwolaeth pawb a gafodd ei gladdu yno. Dilyn cynsail a osodwyd gan ficer blaenorol a wnaeth oherwydd ym mis Medi 1824 nododd y ficer a oedd yno ar y pryd fod John Morris wedi 'ei lofruddio ar y ffordd fawr wrth ymyl ei dŷ'. Dangosodd y Parchedig James ddiddordeb mewn materion o'r fath eisoes yn ystod ei flynyddoedd fel curad yn yr un plwyf gan gofnodi ar 14 Chwefror 1837, ar gyfer claddedigaeth Eleanor Evans, 23 oed a'i chwaer, Jane, 21 oed o Gefnwrthaglen i'r 'ddwy chwaer farw o'r dwymyn goch a chael eu claddu ar yr un diwrnod yn agos at ei gilydd yn yr un bedd'. Ym mis Mai 1836 nododd hefyd fod David Evans o Benllyn, Pennant, 2 oed, 'wedi boddi ym mhwll y felin'. Mae ganddo nodiadau hefyd yn y gofrestr fedyddio, e.e. adeg bedydd Mary a Margaret Davies, efeilliaid crydd Frongoy dywedwyd bod 'y fam, 27 oed, yn gorwedd yn farw yn y tŷ a'r plant yn cael eu bedyddio prin dair awr wedi'u geni'. Gwelir nodyn mwy milain wrth y cofnod ar gyfer bedydd plentyn siawns Hannah Morgan gan David James ar ddydd Nadolig 1869 pryd nodwyd 'Sodom' fel cyfeiriad y cartref. Achlysur mwy hapus fodd bynnag fu bedydd y drydedd set o efeilliaid i'w geni i deulu Joshua ym Mlaenerthy ym 1851.

Ni ddechreuodd nodi achos marwolaeth pob un unigolyn tan fis Mawrth 1846. Nododd achos oddeutu 326 o farwolaethau ac o'r rhain bu 84 farw o 'henaint'. Er y mae'n rhaid bod yna achos mwy penodol mae'n amlwg y credai'r Parchedig James nad oedd angen rheswm arbennig ar y Medelwr Mawr i alw heibio ar ôl cyrraedd oed yr addewid. Nododd fodd bynnag mai Mary Evans, Crossty Bach, 97 oed, oedd 'yr hynaf erioed i'w chladdu yn Llanbadarn'. Mae'n ddiddorol sylwi i 26 o fenywod fyw yn hŷn na 80 ond dim ond 16 o ddynion a lwyddodd i gyflawni'r gamp.

I'r rheiny a fu farw cyn cyrraedd eu saith deg roedd achos eu marwolaeth yn niferus ac amrywiol. Bu farw John Davies, Cwm ym mis Ionawr 1850 o 'farwolaeth sydyn o ganlyniad i frathiad gan wiber'. Ym 1878 bu Evan Evans, Mynydd Bach, farw yn 50 oed ac wrth ochr ei enw rhoddwyd y nodyn cryptig 'achos honedig o ddewiniaeth'. Mae'n amlwg y câi Mynydd Bach ei gysylltu â gweithgareddau goruwchnaturiol gan y dywed un o gofnodion cynharaf y Parchedig James ynglŷn â marwolaeth Mary Jeremiah, merch 27 oed o Fynydd Bach a gladdwyd ym mis Mehefin 1840, ' ... iddi gael ei witsio ychydig cyn ei marwolaeth ac iddi farw o ganlyniad i'w galar yn sgil hynny.' Mae'r cofnod ar gyfer William Evans, Cefngws, a foddodd yn afon Aeron ar ei ffordd adref o'r ffair logi leol, yr un mor bryfoclyd, 'â rhai yn ddamweiniol, â eraill o fwriad'. Cofnoda'r Parchedig James yr unig ddamwain ffordd angheuol a ddigwyddodd yn Llanbadarn Trefeglwys yr adeg yma pan gladdwyd Catherine Jenkins, Berthlwyd, ym mis Rhagfyr 1858 ar ôl marw 'o ganlyniad i'r braw a gafodd o syrthio oddi ar ei cheffyl wedi i gert eu taro'.

Ymddengys y credai'r Parchedig James i rai o'r marwolaethau ymhlith y 'canol oed' ddigwydd o ganlyniad i ffactorau a oedd yn gysylltiedig â'u lleoliad. Bu farw o leiaf 6 o bobl o asthma ac wrth ymyl un gladdedigaeth a fu yn 1853 dywed mai dyma'r '... trydydd a fu farw o glefyd tebyg o fyw yn rhy agos i'r afon'.

Ymhlith y plant mae'r marwolaethau yn adlewyrchu ein dealltwriaeth o iechyd cymunedol yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bedyddiodd y Parchedig James 212 o blant yn ystod yr un cyfnod yn fras. O blith y newydd-anedig, yr achos mwyaf cyffredin oedd 'confylsiwn'. Mae'n debyg y byddai llawer o'r 24 a fu farw wedi cael confylsiwn gwres o ganlyniad i dwymyn â gwres uchel yn dilyn haint. Dywed y Parchedig

James hefyd y bu 5 plentyn farw o 'dwymyn y llyngyr'; mae'n debyg y câi ei gydnabod yn salwch a oedd yn gysylltiedig â phlant a arweiniai hefyd at gonfylsiynau ac awgryma *The Dictionary of Daily Wants*, casgliad o wirebau a gyhoeddwyd at ddibenion y cartref ym 1858, y dylid ei drin 'â charthlyn cryf o jalap, sgamoni a chalomel'. Mae'n siŵr y bu effaith y fath gyfuniad o garthlynnau cryf ar blentyn anhwylus yn fwy angheuol yn aml iawn na'r clefyd ei hun.

Bu farw pedwar plentyn ar bymtheg o'r crŵp sef clefyd a gaiff ei ddisgrifio gan yr un cyhoeddiad fel 'un o'r clefydau **mwyaf** angheuol o'r holl rai i effeithio ar blant ... gyda'r haint bron yn ddieithriad yn angheuol - o beidio â'i drin - o fewn tridiau'. Unwaith eto, roedd y driniaeth a awgrymir yn llym ac yn gwbl annigonol hyd yn oed petai gan y rhieni y wybodaeth neu'r arian i'w rhoi.

Y tu ôl i'r ystadegau moel yr oedd llawer o boen a thrallod. Byddai teuluoedd yn dioddef colledion dro ar ôl tro, megis y teulu Lewis o Frongoy y gellir olrhain eu hanes trist yn y cofrestri. Dengys y gofrestr fedyddio am 27 Mehefin 1849 gofnod ar gyfer Hannah, merch William Lewis, a ffermiai yn Frongoy, a'i wraig Eleanor a rhoddwyd y nodyn '7fed merch' wrth yr enw. Flwyddyn yn ddiweddarach, ganed mab ond bu farw ddwy flynedd yn ddiweddarach o ganlyniad i'r crŵp. O fewn mis bu farw ei chwaer 6 oed o'r un haint. Ganed tri mab a thair merch arall i'r Lewisiaid a oedd yn byw erbyn hyn yn Wernddu, ond bu farw mab arall o'r crŵp ym mis Chwefror 1855 ar yr un adeg ag y bu farw tair o ferched teulu Lewis, Monachty Bach - cyfnitherod iddo mae'n siŵr. Daw'r hanes i ben yn syfrdanol ym mis Mai 1867 pan gafodd William Lewis ei gladdu'n 57 oed. Dywed nodiadau'r Parchedig James 'Felo de se ... claddwyd yn breifat, hunanladdiad'. Mae yna ôl-nodyn rhyfedd i'r hanes yma oherwydd ym mis Mai 1872 aeth Hannah, y '7fed merch' â'i mab anghyfreithlon,William Lewis gan William Thomas, Brysig Bach, y dywedir ei fod 'mewn ysgol yng Nghaerfyrddin' i'w fedyddio.

Ychydig o effaith a gafodd y clefydau heintus mawr a garlamodd drwy'r trefi a'r dinasoedd ar Lanbadarn Trefeglwys. Dim ond 9 achos o farwolaeth o ganlyniad i deiffws a gofnodwyd ac ymddengys iddo daro mewn pocedi bach fel y digwyddodd i Margaret Jones a'i chwaer Anne a fu farw o fewn

mis i'w gilydd yn ystod haf 1855. Awgryma nodyn y Parchedig James ei bod hi'n debyg iddynt ddal y clefyd yn Llundain 'wedi bod yno prin 3 mis'. Teulu arall oedd teulu Lott o Bantgwyn a gollodd ddau fachgen bach oherwydd y teiffws o fewn 10 niwrnod i'w gilydd ddechrau 1870. Dim ond un achos o difftheria a gofnodwyd ac un achos o'r llech; clefyd a oedd yn rhemp ymhlith y tlawd ond na fyddai fel arfer yn angheuol.

Dim ond tri phlentyn a gollodd eu bywydau mewn damweiniau yn y cyfnod hwn. Claddwyd David Evans, Nebo, ym 1865 yn 7 mis: 'Llosgwyd i farwolaeth yn absenoldeb y fam'. Lladdwyd Ann Thomas, 3 oed, Pennant mewn tân hefyd ym 1851 ac y mae, i raddau, yn syndod nad oedd yna fwy o farwolaethau o gofio y dibynnent ar danau agored am eu gwres a'u coginio mewn bythynnod bach lle trigent yn aml yn deuluoedd mawr.

Claddwyd David Davies, Maesllyn, ym 1867 yn 3 mis oed o ganlyniad i 'esgeulustod y fam', tra bu farw Ann Morgan o Bennant, 4 oed, am y rheswm syml ei bod yn 'blentyn siawns'.

Yr hyn sy'n syndod yw mai dim ond 4 gwraig a fu farw wrth esgor. Ond dywedir i Eleanor Jones, 44 oed o Lanllwyd a fu farw ym mis Rhagfyr 1851 farw 'o ganlyniad i alar mawr wedi colli plentyn'. Roedd yn wraig i Reithor Towyn a bu farw ei mab David Lloyd Jones 12 oed ym mis Medi 1850 o 'lid ar y gwddf'.

Fel y gellid disgwyl mewn plwyf gwledig yn Sir Aberteifi roedd y darfodedigaeth yn holl bresennol yn y gymuned. Ni chaiff y clefyd mo'i enwi byth gan y Parchedig James; gwell ganddo ddefnyddio'r term 'y dicléin' sef mwythair ar gyfer y salwch creulon hwn. Yn ystod y blynyddoedd y cadwodd gofnodion manwl bu tua 60 o bobl farw ohono. Un ohonynt oedd Richard Lewis gynt o Fonachty Bach a thad y tair merch fach a fu farw o'r crŵp; claddwyd ef ym 1858 yn ddim ond 36 oed. Mae'r darfodedigaeth yn glefyd heintus dros ben ac fe'i gwelid yn lledu drwy deuluoedd cyfan fel y gwnaeth yn achos teulu'r Evans ym Mhennant. Y cyntaf i farw ym mis Rhagfyr 1856 oedd Ann Evans, 27 oed, y cafodd ei 'dicléin' '... ei brysuro gan enedigaeth plentyn iddi'. Fis yn ddiweddarach bu farw ei mab o'r crŵp. Ddwy flynedd yn ddiweddarach bu farw Isaac ei gŵr hefyd o'r 'dicléin' ac yntau'n ddim ond 32 oed. Yr oedd hi'n hysbys bod esgor ar blentyn yn prysuro'r darfodedigaeth ac ar ddechrau'r 1850 roedd

yna achos tebyg lle bu farw Mary Griffiths, Rhos, o'r 'dicléin' gyda'i mab Henry yn marw'n 3 wythnos oed o 'gonfylsiwn'.

Unwaith yn unig y gwelir y Parchedig James yn gwneud sylw ar gyflwr emosiynol y bobl ifanc hyn ar eu gwely angau a hynny gyda'r duwioldeb a nodweddai'r Oes Fictorianaidd. Gyferbyn â chofnod claddu Elizabeth Thomas, 26 oed, a fu farw ym mis Rhagfyr 1867 gwelir y geiriau 'Dicléin, yn barod i farw'.

Y mae, wrth reswm, ychydig o amheuaeth ynglŷn â chywirdeb y wybodaeth a geir gan y Parchedig James. Ni wyddom, er enghraifft, a ydyw'r cofnodion yn seiliedig ar ddiagnosis personol o'i eiddo ef ei hun neu a ddefnyddiodd y dystysgrif farwolaeth i gael yr achos 'swyddogol'. Erbyn heddiw, byddai nifer o'r achosion a gofnodir ganddo yn symptomau clefydau mwy sylfaenol: dropsi, confylsiynau a'r llyngyr er enghraifft. Er hynny, mae ymdrechion y Parchedig James yn gofnod unigryw o'r patrymau a welid ymhlith y byw a'r marw mewn un plwyf gwledig yn Sir Aberteifi dros gyfnod o ryw chwarter canrif.

Gwyneth Roberts

Mae'r syniadau uchod yn mynegi barn yr awduron, nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Ceredigion
© Archifdy Ceredigion Archives 2000